

PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

Dydd Mercher, 21 Gorffennaf 2021

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd A.G. Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

S.M. Allen, K.V. Broom, D.M. Cundy, W.R.A. Davies, H.L. Davies, G.H. John, J.K. Howell, K. Madge, J.G. Prosser, D.E. Williams a J.S. Edmunds

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorwyr L.M. Stephens, Dirprwy Arweinydd y Cyngor
C.A. Davies, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Cymunedau a Materion Gwledig
P. Hughes-Griffiths, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
D.M. Jenkins, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
N. Daniel, Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
H. Pugh, Pennaeth Dros Dro Archwilio, Riag a Chaffael
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
A Clarke, Partner Busnes Arweiniol (AD)
H. Font, Rheolwr Iechyd a Gwaith;
L. Evans, Uwch-ymgynghorydd Adnoddau Dynol
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Cyfarfod rhithwir: 10.00 yb - 1.05 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2020/21

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyngor ar gyfer 2020/21 ynghyd ag adroddiadau manwl ynghylch yr Amcanion Llesiant perthnasol sydd o fewn maes gorchwyl y Pwyllgor, sef:

- Amcan Llesiant 5 - Mynd i'r afael â thlodi;
- Amcan Llesiant 14 - Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru;
- Amcan Llesiant 15 - Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau.

Nodwyd ei bod yn ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) i'r Awdurdod gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar berfformiadau blaenorol erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd ynghylch yr adroddiad:

Amcan Llesiant 5

- Mewn ymateb i sylw yn ymwneud â'r gwaharddiad ar droi allan yn ystod pandemig covid a'r disgwyliad dilynol y gallai nifer yr aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref fod wedi bod yn llai na'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad. Cytunwyd y dylid gofyn i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai roi rhagor o wybodaeth am y mater hwn a hefyd gynlluniau'r Awdurdod i adeiladu tai yn y dyfodol;
- nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig bryder bod aelwydydd nad oeddent yn gallu elwa o fenter Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru gan nad oeddent mewn ardaloedd a oedd yn gymwys;
- diolchwyd i'r Cyngor am ei gamau gweithredu o ran darparu parseli bwyd ac wedyn taliadau yn lle prydau ysgol am ddim;
- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod y Grant Datblygu Disgyblion wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer eleni. Ni chafwyd unrhyw arwydd ynghylch tynnu'r grant yn ôl yn y dyfodol, a byddai effaith hynny'n sylweddol, ac ystyriwyd mai'r unig beth y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud yn y dyfodol fyddai trosglwyddo'r grant i'r Grant Cynnal Refeniw;
- Cytunodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, mewn ymateb i sylw, i wneud ymholiadau ynghylch a ellid sicrhau bod cyllid Parc Rhanbarthol y Cymoedd ar gael yn ehangach ar gyfer parciau nad oeddent yn gymwys o dan y fenter ar hyn o bryd;

Amcan Llesiant 14

- Nodwyd bod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth eisoes wedi cytuno i wneud popeth oedd yn bosibl i sicrhau bod busnesau yn Sir Gaerfyrddin yn gallu elwa o'r ymwelwyr a ddisgwyliad ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2023;

Amcan Llesiant 15

- cytunodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau i ganfod faint o arian a wariwyd ar gontractwyr allanol pan oedd y gwaith dros gapasiti gweithlu'r Cyngor ei hun.

Mynegwyd pryder ynghylch yr ôl-groniad o geisiadau am ddarparu palmentydd, mewn ardaloedd gwledig yn arbennig, a oedd yn effeithio ar allu pobl i gadw'n heini ac 'Heneiddio'n Dda' yng nghyd-destun yr Adroddiad Blynyddol a hefyd o ran llwybrau cerdded diogel i ysgolion. Nodwyd nad oedd hyn yn dod o fewn maes gorchwyl y Pwyllgor hwn ac awgrymwyd y dylid gofyn i'r Pwyllgor Craffu – Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ystyried darparu palmentydd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL argymell i'r Bwrdd Gweithredol fod fersiwn ddrafft o Adroddiad Blynyddol 2020/21 yn cael ei gymeradwyo.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-21 A CHYNLLUN GWEITHREDU 2021-24

Cyflwynodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-21, a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2021-24, a oedd yn manylu ar sut yr oedd y Cyngor wedi gweithredu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ac wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Penodol Cymru.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Mynegwyd pryder nad oedd yn ymddangos bod gan y Proffiliau Wardiau a gyrchwyd drwy wefan gorfforaethol y Cyngor y wybodaeth ddiweddaraf mewn meysydd fel nodweddion y boblogaeth, sefyllfa economaidd-gymdeithasol yn seiliedig ar feddiannaeth a math a deiliadaeth tai a bod gwybodaeth o'r fath yn hanfodol wrth geisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chefnogi cymunedau. Cytunodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig i ymchwilio ymhellach i'r mater;
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r ganran lawer mwy [81%] o staff benywaidd a oedd wedi ceisio cyngor a chymorth llesiant drwy'r Ganolfan Cyngor a Chymorth Llesiant Gweithwyr o gymharu â staff gwrywaidd, awgrymwyd ei bod yn ymddangos bod dynion yn llai tebygol o geisio cymorth ond cytunodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) i godi'r mater gyda'i dîm;
- Cyfeiriwyd at y gwaith rhagorol a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig) ac yn arbennig y penderfyniad i godi byrddau dehongli priodol ar waelod y gofeb i Syr Thomas Picton.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL argymell i'r Bwrdd Gweithredol fod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YR IAITH GYMRAEG 2020-21

Gan gyfeirio at gofnod 7 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2016, cyflwynodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yr Adroddiad Blynyddol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2020-21. Roedd yr Adroddiad wedi cael ei lunio er mwyn cydymffurfio â threfniadau monitro Comisiynydd y Gymraeg.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Mewn ymateb i sylw ynghylch newid enwau lleoedd Cymru i'r Saesneg, dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon, Twristiaeth fod pryderon y Cyngor wedi'u cyfleu i Lywodraeth Cymru a oedd yn ystyried y mater;
- Cytunodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) i ganfod y ffigurau cofnodion iaith ar gyfer y 2460 o staff mewn ysgolion a oedd wedi'u cynnwys yn y data sgiliau iaith;
- Mewn ymateb i sylw y dylai Dydd Gŵyl Dewi fod yn ŵyl banc, dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon, Twristiaeth fod

llawer o ddatliadau yn digwydd mewn ysgolion na fyddai'n digwydd fel arall pe bai'n wyl banc. Roedd y mater yn cael ei drafod gan Lywodraeth Cymru.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL argymhell i'r Bwrdd Gweithredol fod yr Adroddiad Blynyddol ynghylch yr Iaith Gymraeg 2020-21 yn cael ei gymeradwyo.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL STRATEGAETH TRAWSNEWID DIGIDOL A STRATEGAETH TECHNOLEG DDIGIDOL 2021

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd Adroddiad Blynyddol Strategaeth Trawsnewid Digidol a Strategaeth Technoleg Ddigidol 2021 yn unol â'r ymrwymiadau a nodir yn Strategaeth Trawsnewid Digidol 2017-2020, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Mai 2017, a Strategaeth Trawsnewid Digidol 2018-2021, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Mai 2018. Roedd y ddwy strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i lunio adroddiad blynyddol.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- O ran trosglwyddo i wasanaethau Cwmwl, a mwy o ddibyniaeth arnynt, rhoddodd y Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol sicrwydd bod cynllun Adfer mewn Argyfwng manwl iawn ar gyfer seilwaith yr Awdurdod a bod profion yn cael eu cynnal yn rheolaidd;
- Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol, ar ôl mabwysiadu'r Polisi Dewch â'ch Dyfais Eich Hun, y gallai aelodau bellach osod Outlook ar eu dyfeisiau eu hunain i gael mynediad at nodweddion fel eu mewnflwch cyngor a'r dyddiadur;
- Sicrhawyd yr Aelodau bod gan holl ysgolion Sir Gaerfyrddin gysylltedd rhagorol a bod cyllid wedi'i ddarparu i sicrhau bod ganddynt y dyfeisiau a'r offer TG angenrheidiol;
- amlinellodd y Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gwella cysylltedd â phob rhan o'r Sir a oedd yn cynnwys mentrau o fewn Bargaen Ddinesig Bae Abertawe;
- cytunodd y Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol i ganfod y rheswm pam, yng Nghymru rhwng 2018 a 2020, y bu gostyngiad yng nghanran yr aelwydydd a allai gael mynediad at y rhyngwyd o 89% i 88%;
- cytunodd y Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol i ymchwilio ymhellach i bryder ynghylch yr ôl-groniad o geisiadau am gyllid sy'n aros i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon eu cymeradwyo er mwyn gallu darparu band eang cyflym iawn i gymunedau lle'r oedd ei angen;
- O ran mynediad at wasanaethau gan bobl a oedd â mynediad digidol cyfyngedig, rhoddwyd gwybod i'r aelodau y gellid cael gafael ar wasanaethau'r Cyngor hefyd yng Nghanolffannau Hwb y Cyngor mewn canol trefi a thros y ffôn;
- Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, mewn ymateb i bryder, fod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol eisoes yn ymwybodol o'r anghydraddoldebau a allai gynyddu rhwng y rhai a oedd â mynediad at TG a'r rhai sydd heb fynediad;
- cytunodd y Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol i ddsbarthu manylion y cynllun talebau i gefnogi cymunedau gwledig lle y bo'n bosibl i gynyddu cysylltedd digidol;
- dywedodd y Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol, mewn ymateb i sylw, fod deialog gyda'r Bwrdd lechyd yn parhau o ran rhannu data a fyddai o fudd arbennig i dimau integredig.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Strategaeth Trawsnewid Digidol a Strategaeth Technoleg Ddigidol 2021.

8. POLISI TRIN DATA PERSONOL

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd 'Bolisi Trin Data Personol' arfaethedig a fyddai'n cymryd lle'r 'Polisi Trin Gwybodaeth Personol' a'r 'Polisi a Gweithdrefn Riportio ac Ymateb i Achosion o Dorri Rheolau' yr oedd eu dyddiadau adolygu wedi mynd heibio ac roedd angen eu diweddarau i adlewyrchu newidiadau mewn arferion gwaith, defnydd o TG newydd a phenderfyniadau a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Nodwyd y byddai'r polisi'n cael ei gefnogi gan wybodaeth sy'n haws ei deall ar wefan a modiwlau e-ddysgu'r Cyngor;
- Dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod yr achosion o dorri rheolau o ran data wedi'u hadrodd i'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a chafodd y cofnodion hynny eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

PENDERFYNWYD YN UNFRDOL argymhell i'r Bwrdd Gweithredol fod y Polisi Trin Data Personol yn cael ei gymeradwyo.

9. ADRODDIAD MONITRO ABSENOLDEB SALWCH - ADRODDIAD DIWEDD BLWYDDYN - 2020/21

[HYD Y CYFARFOD

Am 1:00pm wrth ystyried yr eitem hon, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol Sefydlog 9 'Hyd y Cyfarfod', ac at y ffaith bod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers 3 awr. Felly

PENDERFYNWYD bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu rhoi o'r neilltu dros dro er mwyn gallu ystyried yr eitemau oedd yn weddill ar yr agenda.]

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd adroddiad yn darparu data monitro absenoldeb salwch ar gyfer y cyfnod cronol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 a throsolwg o'r cymorth llesiant gweithwyr a ddarperir.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at y rôl ragorol a gyflawnir gan staff a oedd wedi gwirfoddoli fel hyrwyddwyr llesiant mewn adrannau i helpu i hyrwyddo mentrau llesiant a chyfeirio aelodau unigol o staff sy'n ceisio cymorth;
- Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau amrywiol a oedd wedi'u rhoi ar waith yn ystod y pandemig presennol o ran y cymorth a roddwyd i staff newydd;
- Mewn ymateb i sylw, cydnabu'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad) fod angen adolygu pecynnau dysgu a datblygu'r Awdurdod gan fod mwy o bobl yn weithio gartref ynghyd â'r ffyrdd newydd o weithio, fel bod rheolwyr yn gallu arwain a rheoli staff o bell yn y dyfodol;
- Cytunodd y Rheolwr Llesiant Gweithwyr i gynnwys nifer y staff nad ydynt yn dod i apwyntiadau yn y Ganolfan Iechyd Galwedigaethol mewn adroddiadau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

10. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad "peidio â chyflwyno".

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.

11. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn amodol ar yr uchod, dderbyn rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 20 Hydref 2021.

12. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, neu'r atgyfeiriadau oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu.

13. COFNODION - 10FED MEHEFIN 2021

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2021 gan eu bod yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD